Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr. Ein gweledigaeth yw bod yn rheoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo ac a berchir, bod yn flaengar a herio ein hunain ac eraill er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn dŵr.

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

Ffôn: 0121 644 7500
Ffacs: 0121 644 7533
Gwefan: www.ofwat.gov.uk
E-bost: mailbox@ofwat.gsi.gov.uk

Lluniau © Anglian Water, Ariel da Silva Parreira, DWP, Elussich, Asiantaeth yr Amgylchedd, Fowardcom, Getty Images, Leonard G, Tivery Lucky, Transport for London
Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% o bapur gwastraff ôl-ddefnyddiwr wedi ei ddad-incio.
Mai 2016

ISBN 978-1-910739-63-1

© Hawlfraint y Goron 2016

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gsi.gov.uk.

OGL

Mai 2016

Hyder mewn dŵr

Water 2020: ein dull rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr – trosolwg

Cynnwys

Meithrin hyder mewn dŵr 1

Mynd i'r afael â heriau, rhoi manteision 3

Manteision i gwsmeriaid, manwerthwyr a chyfanwerthwyr 5

Canolbwyntio ar gwsmeriaid presennol a rhai'r dyfodol 7

Cryfhau rôl y Grwpiau Her Cwsmeriaid 9

Cynnal dilysrwydd 11

Hyrwyddo marchnadoedd newydd 13

Hyrwyddo marchnadoedd newydd ar gyfer adnoddau slwj a dŵr 15

Manteision amgylcheddol 17

Y camau nesaf 19



www.ofwat.gov.uk

Ofwat

Meithrin hyder mewn dŵr

Ein gweledigaeth a rennir ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr yw un lle mae gan gwsmeriaid a chymdeithas yn ehangach ymddiriedaeth a hyder mewn gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff cyhoeddus hollbwysig. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon mae angen i bawb yn y sector gydweithio, gwrando ar gwsmeriaid a mynd i'r afael â heriau hirdymor.

Rydym yn gwneud newidiadau i'r modd yr ydym yn rheoleiddio yn y dyfodol er mwyn chwarae ein rhan mewn meithrin hyder mewn dŵr. Yma rydym yn crynhoi prif elfennau ein dull rheoleiddio yn y dyfodol ar gyfer marchnadoedd cyfanwerthu a'r adolygiad prisiau yn 2019 (PR19) a thu hwnt. Rydym eisiau adeiladu ar lwyddiannau ein hadolygiad prisiau blaenorol (PR14) a mynd ymhellach, er budd cwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas yn ehangach.

Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn, rydym yn gweithio gyda'r sector i agor y farchnad manwerthu busnes yn Lloegr i gystadleuaeth o fis Ebrill 2017. Rydym hefyd yn adolygu costau a manteision cystadleuaeth manwerthu ar gyfer cwsmeriaid preswyl ar ran Llywodraeth y DU.

Ein dull rheoleiddio

Beth fydd ein dull newydd yn ei gyflawni



Tryloywder gwybodaeth o ran sut mae'r sector yn perfformio ac ar gyfer newydd-ddyfodiaid

Defnydd mwy effeithlon o adnoddau prin

Model buddsoddi cynaliadwy a chyd-bwysedd teg o risg a gwobr

Herio cynlluniau busnes a chostau cwmnïau yn effeithiol yn PR19

Dewis lle bo'n bosibl, a sicrhau bod march-nadoedd yn effeithiol ar gyfer cwsmeriaid

Gwasanaethau hanfodol sy'n wydn ac yn rhai all adfer o siociau

Canolbwyntio ar yr hirdymor, wedi'i dargedu ac yn seiliedig ar risg

Cefnogaeth ar gyfer gwelliannau cynaliadwy yn yr amgylchedd

Sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn parhau'n fforddiadwy

Mynd i'r afael â heriau, rhoi manteision

Mae'r sector dŵr yn wynebu heriau critigol. Mae angen i ni fynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'n gilydd er mwyn sicrhau bod anghenion, blaenoriaethau a phryderon cwsmeriaid yn cael eu clywed ac yr ymatebir iddynt, nawr ac yn y dyfodol. Bydd ein dull rheoleiddio newydd yn helpu i sicrhau diwydiant gwydn ar gyfer dŵr, er budd cwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas yn ehangach.

Yr heriau

Cynnydd o 20% yn y boblogaeth dros 20 mlynedd – llawer ohono mewn ardaloedd sychach

Perygl bod gormod o ddŵr yn cael ei gymryd o afonydd, gan achosi difrod amgylcheddol

Rhagwelir lleihad o 20% mewn glaw yn yr haf a chynnydd mewn glaw yn y gaeaf erbyn 2050

Nid yw un o bob pum cwsmer yn teimlo bod ei fil yn fforddiadwy, er gwaethaf gostyngiad gwerth 5% mewn biliau mewn termau real erbyn 2020

210,000 o gartrefi newydd y flwyddyn, llawer ohonynt yn Ne Ddwyrain a Dwyrain Lloegr

Manteision ein dull rheoleiddio newydd

£800 miliwn
Budd posibl gwerth a diogelwch amgylcheddol o ganlyniad i ddefnydd craffach o ddŵr drwy fasnachu

Budd posibl gwerth £780 miliwn a llai o garbon drwy greu pŵer o wastraff

Mesur gwell a mwy dilys o chwyddiant

Ffyrdd newydd o fynd i'r afael â phrinder dŵr a chreu pŵer o wastraff

Dull hirdymor ar gyfer bodloni anghenion cwsmeriaid, nawr ac yn y dyfodol

Mwy o wydnwch drwy benderfyniadau mwy gwybodus a rhwydweithiau wedi'u cysylltu'n well

Y potensial i gyflawni mwy am lai, drwy gymell effeithlonrwydd

Manteision i gwsmeriaid, manwerthwyr a chyfanwerthwyr

Beth mae ein dull yn ei olygu i gwsmeriaid

Gwybodus – gwell mynediad at wasanaethau a gwybodaeth am berfformiad cwmni

Wedi ymgysylltu – gwasanaethau wedi'u seilio ar gwmnïau'n deall anghenion cwsmeriaid

Wedi'u cynnwys – cwsmeriaid yn chwarae rhan mewn defnydd craffach o ddŵr ac yn helpu i wneud penderfyniadau ynglŷn â gwasanaethau

Gwasanaethau gwydn – gall cwsmeriaid gael hyder yn eu cyflenwad dŵr a bod dŵr gwastraff yn cael ei gludo i ffwrdd

Wedi'i bersonoli – gwasanaethau sy'n rhoi ystyriaeth i newidiadau mewn amgylchiadau cwsmeriaid

Beth mae ein dull yn ei olygu i fanwerthwyr

Dealltwriaeth: mwy o ddisgwyliadau y bydd cwmnïau'n deall anghenion cwsmeriaid, nawr ac yn yr hirdymor

Wedi'i deilwra: darparu gwasanaethau sy'n addas i amgylchiadau gwahanol cwsmeriaid ac amgylchiadau sy'n newid

Dewis: ar gyfer cwsmeriaid busnes yn Lloegr o fis Ebrill 2017

Boddhad: gwrando ar adborth cwsmeriaid a gweithredu lle bo angen

Beth mae ein dull yn ei olygu i ddarparwyr gwasanaethau cyfanwerthu

Esblygiad: hyrwyddo marchnadoedd newydd mewn adnoddau slwj a dŵr

Amryfath: darparwyr gwahanol ar gyfer adnoddau slwj a dŵr

Canolbwyntio ar ganlyniadau: ymrwymiadau gwasanaeth hirdymor, ymestynnol wedi eu hysgogi gan anghenion a gofynion cwsmeriaid

Gwydn: deall a lliniaru risgiau

Arloesedd: cyfleoedd newydd yn codi o dechnoleg, ymgysylltiad cwsmeriaid a defnydd craffach o ddŵr

Canolbwyntio ar gwsmeriaid presennol a rhai'r dyfodol

PR14 oedd y sgwrs cwsmeriaid fwyaf erioed yn y sector dŵr Mae ein dull rheoleiddio newydd yn rhoi hyd yn oed mwy o ddisgwyliadau bod cwmnïau'n deall eu cwsmeriaid ac yn rhoi canlyniadau dros yr hirdymor. Mae hyn yn golygu cwmnïau'n dod i wybod beth sy'n bwysig i'w cwsmeriaid a chyflawni hyn.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau ddeall anghenion eu holl gwsmeriaid ac unrhyw amgylchiadau a allai wneud eu cwsmeriaid yn ddiamddiffyn. Mae hyn yn gofyn am ddulliau mwy amrywiol i ddeall blaenoriaethau, anghenion, gofynion ac ymddygiad cwsmeriaid. Dylai'r ddealltwriaeth hon lywio datblygiad ymrwymiadau perfformiad sy'n ysgogi darpariaeth gwasanaethau gwydn nawr ac yn y tymor hwy.

Rydym yn rhoi egwyddorion newydd ar waith ar gyfer ymgysylltiad cwsmeriaid, er mwyn helpu i ysgogi canolbwyntio ar gwsmeriaid dros yr hirdymor.

Beth mae deall anghenion a gofynion cwsmeriaid yn ei olygu



Beth fydd hyn yn ei gyflawni

Drwy godi'r bar ar ddealltwriaeth ac ymgysylltiad cwsmeriaid, rydym am i gwsmeriaid chwarae mwy o ran mewn helpu i siapio gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff, nawr ac ar gyfer y dyfodol

Cryfhau rôl Grwpiau Her Cwsmeriaid

Grwpiau lleol annibynnol yw Grwpiau Her Cwsmeriaid (CCGau) sy'n chwarae rhan bwysig mewn herio cwmnïau i wella ansawdd eu hymgysylltiad â chwsmeriaid. Yn PR14, rhoddodd CCGau sicrwydd annibynnol i ni fod cwmnïau'n ymgysylltu â'u cwsmeriaid a bod cynlluniau busnes cwmnïau yn adlewyrchu dealltwriaeth gadarn a chydbwysedd rhesymol o farn cwsmeriaid. Yn PR19 rydym eisiau cefnogi a galluogi CCGau i herio cwmnïau hyd yn oed yn fwy.

Yn PR19 gobeithiwn y bydd CCGau yn parhau i:

Herio cwmnïau a'n sicrhau ni ynglŷn ag ansawdd ymgysylltiad cwmnïau â'u cwsmeriaid a sut y mae hyn wedi ei adlewyrchu mewn cynlluniau busnes

Annog aelodaeth amrywiol, gan adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau lleol

Cyflwyno adroddiad annibynnol ar yr un pryd ag y caiff cynlluniau busnes eu cyflwyno

Yn ogystal byddwn yn:

Rhoi mwy o eglurder ynglŷn â'r cwmpas a'r materion y dylai adroddiadau CCG fynd i'r afael â hwy

Galluogi defnydd gwybodaeth gymharol ynglŷn â pherfformiad cwmni i helpu CCGau i herio ymrwymiadau perfformiad cwmnïau

Annog mwy o rannu gwybodaeth a chydweithredu rhwng CCGau



Beth fydd hyn yn ei gyflawni

Gan adeiladu ar lwyddiant PR14, bydd y newidiadau hyn yn grymuso CCGau i herio cynlluniau busnes cwmnïau hyd yn oed yn fwy, a ddylai arwain at gynlluniau sy'n adlewyrchu'n well anghenion a gofynion cwsmeriaid a chymunedau lleol

Cynnal dilysrwydd

Mae ein dull rheoleiddio newydd yn pwysleisio pwysigrwydd ymddiriedaeth a hyder yn y sector dŵr nawr ac yn y dyfodol. Mae mynegeio credadwy a dilys o filiau cwsmeriaid yn ganolog i ymddiriedaeth a hyder yn y sector.

Yn flaenorol, cafodd ein hadolygiadau prisiau eu cysylltu i'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). Mae hyn yn golygu bod newidiadau chwyddiant mewn biliau cwsmeriaid hefyd wedi eu cysylltu i RPI.



Nid yw RPI yn ystadegyn swyddogol mwyach. Cwestiynwyd ei gadernid ac mae ei ddefnydd gan Lywodraeth a rheoleiddwyr wedi lleihau. Mae RPI yn fwy anwadal na mesurau chwyddiant eraill a ddefnyddir yn gyffredin, gan beri mwy o ansicrwydd ar gyfer biliau cwsmeriaid. Rydym wedi cael ymgysylltiad eang ac adeiladol gyda grwpiau defnyddwyr, cwmnïau a buddsoddwyr, ynglŷn â sut i newid mesurau chwyddiant yn ein rheolaethau prisiau. Mae rheoleiddwyr eraill hefyd wedi ceisio barn ar y mater hwn.

Byddwn yn newid ein mynegeio ar gyfer biliau cwsmeriaid ac asedau cwmnïau i fesur mwy dilys o chwyddiant, y mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) neu CPIH. Byddwn yn gwneud hyn o PR19 ymlaen. Golyga hyn, o 2020 ymlaen, bydd chwyddiant ar filiau cwsmeriaid yn cael ei gysylltu i CPI neu CPIH – gan gynorthwyo i gynnal ymddiriedaeth a hyder cwsmeriaid, a'r posibilrwydd o leihau anwadalwch biliau. Byddwn yn cadarnhau a ydym yn symud i CPI neu CPIH ai peidio yn ein datganiad methodoleg ar gyfer PR19, y byddwn yn ymgynghori arno ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf 2017.

Golyga hyn y bydd 50% o'r gwerth cyfalaf rheoleiddiol (RCV) yn cael ei fynegeio i RPI o 2020-21. Caiff y gweddill, yn cynnwys pob buddsoddiad newydd, ei gysylltu i CPI neu CPIH. Rydym hefyd wedi nodi ein hegwyddorion ar gyfer sut y rheolir y trawsnewid y tu hwnt i 2025, er mwyn rhoi rhagweladwyedd ac eglurder yn y tymor hwy.

O 2020-21, cysylltir chwyddiant ar filiau cwsmeriaid i CPI neu CPIH

Beth fydd hyn yn ei gyflawni

Bydd symud o RPI i CPI neu CPIH yn rhoi dull mwy credadwy a sefydlog o chwyddiant i gwsmeriaid. Bydd yn sicrhau dilysrwydd parhaus y dull rheoleiddio dros yr hirdymor.

Hyrwyddo marchnadoedd newydd

Er mwyn ymateb i heriau yn y dyfodol, mae angen i ni sicrhau bod y sector dŵr yn wydn, effeithlon ac yn edrych i'r hirdymor. Gall marchnadoedd newydd – lle bydd prynwyr yn cwrdd â gwerthwyr – fod o fudd i gwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas ehangach drwy ddewis, gwytnwch, arloesedd, technoleg a gwybodaeth. Bydd ein dull rheoleiddio newydd yn hyrwyddo marchnadoedd yn Lloegr a, lle bydd yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru, yng Nghymru.

Dewis

Mae marchnadoedd yn rhoi dewis i gwsmeriaid. Bydd dros filiwn o fusnesau, elusennau a sefydliadau sector cyhoeddus yn Lloegr yn gallu dewis eu manwerthwr dŵr o fis Ebrill 2017.

Mae manwerthwyr sy'n gweithredu mewn amgylchedd cystadleuol yn debygol o ysgogi dulliau wedi'u targedu'n fwy ac arloesol ar gyfer effeithlonrwydd dŵr, mesuryddion a rheoli data – gan greu gwerth drwy ddiwallu anghenion cwsmeriaid gyda llai o ddŵr a chostau is.

Rydym hefyd yn ystyried y manteision posibl y gellir eu cael drwy agor y farchnad manwerthu breswyl yn Lloegr a byddwn yn adrodd i Lywodraeth y DU yn fuan.

Gwytnwch

Gall marchnadoedd gynyddu gwytnwch drwy:

- ymateb yn gyflym a hyblyg i'r galwadau a'r pwysau sy'n newid;
- datgelu gwybodaeth sy'n caniatáu ar gyfer gwell cynllunio er mwyn bodloni tueddiadau hirdymor a siociau tymor byr;
- creu amrywiaeth yng nghyflenwad gwasanaethau, gan leihau'r perygl o fethiannau unigol;
- cymell defnydd cynaliadwy o adnoddau; a
- chynyddu effeithlonrwydd a rhyddhau adnoddau i gael eu buddsoddi mewn mannau eraill.

Arloesedd

Mae marchnadoedd yn rhoi cyfle ar gyfer arloesedd. Maent yn galluogi cwmnïau i symud oddi wrth ddatrysiadau a ysgogir gan gyfalaf i gyflawni mwy am lai, yn cynnwys drwy:

- ymgysylltu â chwsmeriaid;
- darparu atebion i heriau hirdymor; a
- cynnig dewisiadau amgen i ddulliau peirianneg traddodiadol.

Technoleg

Mae marchnadoedd yn annog defnydd o ddatblygiadau technolegol megis apiau a chymhorthion digidol eraill. Gall hyn gynyddu ymgysylltiad a dealltwriaeth cwsmeriaid a helpu i ymateb i heriau amgylcheddol drwy well defnydd o ddŵr ac ailgylchu.

Gwybodaeth

Mae marchnadoedd yn datgelu ac yn dibynnu ar wybodaeth i fod yn effeithiol. Mae gwybodaeth newydd a ddatgelir gan farchnadoedd yn galluogi cwmnïau i wneud penderfyniadau gwell ac yn caniatáu i ni ac eraill i herio'r perfformiad hwnnw yn fwy effeithiol ar ran cwsmeriaid. Mae hefyd yn sicrhau bod newydd-ddyfodiaid mewn marchnad yn cael eu trin yn deg.

Hyrwyddo marchnadoedd newydd ar gyfer adnoddau slwj a dŵr

Rydym yn hyrwyddo datblygiad dwy farchnad newydd – adnoddau slwj a dŵr – lle mae potensial i ddatgloi manteision sylweddol ar gyfer cwsmeriaid, cwmnïau, buddsoddwyr a'r amgylchedd. Byddwn hefyd yn annog mwy o gystadleuaeth o ran ariannu a darparu seilwaith newydd gan drydydd parti.

Slwj

Cynnyrch rhannol solet wrth drin carthffosiaeth yw slwj. Mae gwerth iddo fel tanwydd ar gyfer cynhyrchu ynni ac fel amnewidyn gwrtaith. Mae 90% o'r cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff a ymatebodd i'n harolwg yn meddwl y bydd gwerth slwj yn cynyddu yn y tymor canolig, gyda chymorth technoleg newydd.

Bydd hyrwyddo marchnad ar gyfer masnachu slwj yn rhoi arbedion effeithlonrwydd mewn trin a defnyddio ac yn annog arloesedd technolegol. Golyga hyn:

- gall cwmnïau fasnachu gyda'i gilydd a defnyddio canolfannau prosesu mewn ardaloedd cwmnïau cyfagos er mwyn gwella effeithlonrwydd yn y tymor byr;
- buddsoddiad mwy effeithlon i fanteisio i'r eithaf ar brosesu slwj ar draws ffiniau cwmnïau yn y tymor hwy; a
- gwell rhyngweithio ac integreiddiad gyda'r farchnad gwastraff organig ehangach, gan alluogi rhannu safleoedd ac adnoddau yn effeithlon.

Adnoddau dŵr

Adnoddau dŵr yw ffynonellau dŵr a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, diwydiant, y sector cyhoeddus, gweithgareddau preswyl, hamdden ac amgylcheddol.

Bydd hyrwyddo marchnad adnoddau dŵr yn rhoi arbedion effeithlonrwydd a gwell gwytnwch hirdymor. Golyga hyn:

- wneud penderfyniadau yn effeithlon ynglŷn â chaffael adnoddau newydd ar gyfer gwasanaethau gwydn a gwelliannau amgylcheddol;
- gwerth dŵr yn cael ei adlewyrchu'n well ar draws y gadwyn gwerth; a
- chysylltiadau i ddiwygio arfaethedig Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o hawliau echdynnu dŵr i hwyluso masnach echdynnu.

£2.5 biliwn

o fuddsoddiad newydd arfaethedig mewn capasiti adnoddau dŵr dros 25 mlynedd mewn cynlluniau rheoli adnoddau dŵr

Byddwn yn gosod yr amodau i alluogi'r marchnadoedd adnoddau slwj a dŵr i ddatblygu. Byddwn yn:

- cyflwyno rheolaethau prisiau rhwymol ar wahân yn PR19;
- clustnodi asedau cwmnïau i'r rheolaethau er mwyn annog tryloywder a mynediad i'r farchnad;
- diogelu buddsoddiad a geir yn effeithlon hyd 2020 er mwyn rhoi sicrwydd i fuddsoddwyr; a
- datblygu llwyfannau gwybodaeth i alluogi newydd-ddyfodiaid posibl i weld cyfleoedd yn y farchnad.

Hefyd, byddwn yn gosod prisiau mynediad ar gyfer y farchnad adnoddau dŵr er mwyn hwyluso mynediad trydydd parti i'r rhwydwaith dŵr presennol.

Cystadleuaeth o ran ariannu a darparu seilwaith

Mae ein dull rheoleiddio newydd yn cymell cwmnïau i ddefnyddio caffael uniongyrchol ar gyfer cwsmeriaid (DPC) ar gyfer prosiectau seilwaith gwerth uchel.

Bydd DPC yn digwydd pan fo cwmni dŵr yn caffael gwasanaethau, yn arbennig prosiectau seilwaith, ar ran cwsmeriaid, yn cynnwys ariannu'r prosiect. Mae'n hyrwyddo defnydd o farchnadoedd ar gyfer prosiectau a fyddai fel arall yn cael eu darparu gan y cwmni dŵr.

Gall DPC greu arbedion o gostau prosiect ac ariannu rhatach. Gall hefyd annog cwmnïau i edrych ar yr hirdymor ar brosiectau, gan roi arbedion hirdymor.

Byddwn yn gwerthuso cynigion cwmnïau ar gyfer DPC fel rhan o'n hadolygiad seiliedig ar risg o gynlluniau busnes cwmnïau yn PR19. Byddwn yn disgwyl i gwmnïau ddefnyddio DPC ar gyfer prosiectau sydd wedi'u prisio i fod yn werth mwy na £100 miliwn.

Beth fydd hyn yn ei gyflawni

Bydd hyrwyddo marchnadoedd newydd yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor ar gyfer dŵr, gan roi gwytnwch a dewis i gwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol.

Manteision amgylcheddol

Mae ein dull rheoleiddio newydd yn canolbwyntio ar ffyrdd hirdymor i sicrhau gwytnwch yn yr amgylchedd ac mewn cyflenwi dŵr a chludo dŵr gwastraff i ffwrdd.

Yn PR14 gofynnom i gwmnïau ganolbwyntio ar gyfanswm gwariant (yn hytrach na gwahanu gwariant cyfalaf a gweithredol) a chanlyniadau sy'n bwysig i gwsmeriaid. Creodd hyn fwy o gymhellion i gwmnïau arloesi a defnyddio dulliau cynaliadwy, hyblyg a gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu gwasanaethau i gwsmeriaid.

Byddwn yn cefnogi gwelliannau cynaliadwy yn yr amgylchedd drwy edrych yn hirdymor ar fuddsoddi a rheoli risg sy'n annog cwmnïau i gynllunio dros nifer o gyfnodau adolygu prisiau yn hytrach nac un. Mae hyn yn helpu cwmnïau i ddatblygu atebion oes gyfan a defnyddio'r mecanweithiau mwyaf effeithiol i roi canlyniadau amgylcheddol megis talu am wasanaethau eco.

Yn benodol, bydd datblygiad marchnadoedd newydd ar gyfer adnoddau slwj a dŵr yn rhoi manteision amgylcheddol, drwy hyrwyddo defnydd craffach o ddŵr a gwastraff. Mae'r manteision hyn yn cynnwys y canlynol.



Beth fydd hyn yn ei gyflawni

Bydd y newidiadau hyn yn rhoi manteision nawr ac i genedlaethau'r dyfodol, drwy helpu i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol megis prinder dŵr a thrwy greu ynni o wastraff.

Y camau nesaf

Mae'r penderfyniadau a grynhoir yma yn nodi ein dull rheoleiddio yn y dyfodol ar gyfer ein hadolygiad prisiau yn 2019 a thu hwnt, gan adeiladu ar lwyddiannau PR14. Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau yn rhoi dull sy'n helpu i sicrhau diwydiant gwydn ar gyfer dŵr yn y dyfodol, er budd cwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas yn ehangach.

Mae rhai o'n penderfyniadau, megis ein penderfyniad i symud o RPI i CPI neu CPIH a gwahanu rheolaethau ar gyfer adnoddau slwj a dŵr, yn ei gwneud hi'n ofynnol i gael newidiadau i drwyddedau cwmnïau. Rydym eisiau gwneud yr holl newidiadau i drwyddedau cwmnïau fel pecyn, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu gweithredu'n gyson ar gyfer pawb.

Byddwn yn ymgysylltu â chwmnïau ddigon ymlaen llaw i unrhyw broses ffurfiol i wneud newidiadau i drwyddedau. Ond wrth ddatblygu cynigion manwl gwelwn fudd o weithio'n arbennig o agos gyda chwmnïau sy'n teimlo y gallant gefnogi'n gyffredinol y pecyn o newidiadau.

Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ddigon ymlaen llaw i unrhyw broses ffurfiol

Edrych ymlaen at 2020

Rhagfyr 2014

Mae ein hadolygiad prisiau yn golygu y bydd cwsmeriaid yn cael mwy am lai dros y pum mlynedd nesaf, gyda biliau'n gostwng 5% mewn termau real a gwelliannau i wasanaethau

Rhagfyr 2015

Mae ein hymgynghoriad mis Rhagfyr yn nodi ein cynigion ar gyfer newidiadau hirdymor i'n dull rheoleiddio ar gyfer marchnad gyfanwerthu a PR19

Mai 2016

Ein penderfyniadau ar ein dull rheoleiddio er mwyn bod o fudd i gwsmeriaid, hyrwyddo marchnadoedd effeithlon a sicrhau rheoleiddio wedi'i dargedu a chymesur

Hydref/Tachwedd 2016

Ymgynghoriad ar ymgysylltiad a chanlyniadau cwsmeriaid a materion cynllunio pellach

Mehefin/Gorffennaf 2017

Ymgynghoriad methodoleg ar gyfer PR19

Rhagfyr 2017

Datganiad methodoleg ar gyfer PR19

Medi 2018

Cwmnïau'n cyflwyno cynlluniau busnes a CCGau yn cyflwyno adroddiadau annibynnol i Ofwat ar gyfer PR19